


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## COFNODION CYFARFOD ARBENNIG PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU 7yh nos Wener Hydref 18 2024

**Presennol :-** Cynghorwyr :- Aled Griffith ( Cadeirydd); John Gwynedd Roberts ( Is-Gadeirydd); Trefor Jones; Gwilym Jones  
Marian Roberts ( Clerc)

**Absennol :-** Cynghorwyr Carol Hayes a Michael Roberts

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr Alwyn Gruffydd a Dr Melfyn Edwards

### 1. Penderfynu ar gais Cyngor Gwynedd i'r Cyngor Tref gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb dros gerfluniau Howard Bowcott.

**Penderfynwyd :-** y Clerc i wirio gyda'r cwmni yswiriant ; holi Iwan G. Evans C.G. pam fod angen i'r Cyngor Tref eu yswirio nhw a hwythau ar dir Cyngor Gwynedd; pam fod angen yswirio 3 ac nid 4 a sicrhau derbyn ymateb ysgrifenedig ganddo erbyn 23.10.24 cyn ystyried llofnodi'r cytundeb,

### 2. Rhif Cais / Application No.: C24/0767/44/AC (wedi ebostio 10.10.24 )

Lleoliad / Location: Ty Moelwyn, Porthmadog, LL49 9AB

Bwriad / Proposal: Amrywio amod 10 a atodir i gais cynllunio C18/0520/44/LL i alluogi cyflwyno Asesiad ar

Ddesg a manylion cynllun lliniaru amgen sy'n cynnwys byrddau gwybodaeth.

Variation of condition 10 attached to planning application C18/0520/44/LL to enable the submission of a Desk Based Assessment and details of an alternative mitigation scheme comprising of information boards.

**Penderfynwyd :-** ymateb i ddatgan **dim gwrthwynebiad** ac i holi ble yn union bydd y byrddau gwybodaeth yn cael eu gosod.

## Gohebiaeth

1	<b>HANNAH JOYCE C.G. 14.10.24</b>	<b>Ymateb i 152.10.24 Llechi ar balmentydd Porthmadog</b> Roedd Hannah Joyce yn ymateb i gais gan y Pwyllgor Llawn i oedi ar y mater yma ac yn datgan fod angen ymateb gyda mewnbwn erbyn 16.10.24. <b>Penderfynwyd :-</b> ymateb trwy ddiolch am y cynnig i osod y llechi ar y palmant ac i roi sêl bendith i barhau gyda'r prosiect.
2	<b>HANNAH JOYCE C.G. 16.10.24</b>	<b>Cynllun arwyddo drafft</b> Roedd Hannah Joyce wedi anfon copi o'r cynlluniau drafft yma ar gyfer gosod arwyddbyst mewn gwahanol leoliadau ym Mhorthmadog. Aethpwyd dros y cynlluniau gyda chrib mân i gynnig cywiriadau a newidiadau. <b>Penderfynwyd:-</b> y Clerc i ail ysgrifennu'r wybodaeth / cywiriadau ar ffurff tabl i'w wirio gan y Cadeirydd cyn ei yrru'n ôl erbyn 25.10.24.
3	<b>HUW OWEN 15.10.24</b>	<b>Breuddwydion Bro</b> Yn dilyn derbyn ebost gan Angharad ap Iorwerth ( gafodd ei gynnwys yng ngohebiaeth a'i drafod yng nghyfarfod llawn

		8.10.24) ynglyn â'r cynllun arfaethedig hwn roedd Huw Owen yn holi beth fu penderfyniad y Cyngor Tref ar y mater. <b>Penderfynwyd</b> :- anfon yr un ateb i Huw Owen ac i Angharad ap Iorwerth yn adrodd y bydd y Cyngor Tref yn ymgynghori gyda Haydn Jones, Prif Swyddog Cymunedoli C.G., i holi os fyddai'n bosibl cyfuno neu addasu'r prosiect Breuddwydion Bro gyda'i syniadau o ar gyfer Menter Madog.
--	--	--

Daeth y cyfarfod i ben am 20.45.

Marian Roberts ( Clerc)

20.10.24

DRAFT